



Tystiolaeth Cynghair Canser Cymru i Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Cynnydd a wnaed hyd yma wrth weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru.

1. Cefndir

Mae Cynghair Canser Cymru (WCA) yn cynnwys un ar ddeg o gyrff gwirfoddol sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo atal canser, triniaeth ganser, ymchwil a gofal canser i bobl yng Nghymru. Bob blwyddyn rydym yn buddsoddi dros £20m yng Nghymru ac yn cyfrannu i ddatblygu polisi canser.

Bydd pob aelod o WCA yn cyflwyno ei ymateb ei hun i'r Ymchwiliad hwn; felly, bydd yr ymateb hwn gan WCA yn canolbwyntio ar y materion strategol cyffredinol y credwn sy'n sylfaenol er mwyn gweithredu'r cynllun yn llwyddiannus. Byddwn yn canolbwyntio ar y cwestiwn cyntaf, "**A yw Cymru'n dilyn yr amserlen i gyflawni'r canlyniadau a'r mesurau perfformiad, fel y'u nodwyd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser, erbyn 2016?**"

Cyflwynodd Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Cymru a gyhoeddwyd yn 2012 weledigaeth i leihau effaith canser ar fywydau pobl a gwella canlyniadau erbyn 2016 drwy:


- Atal canser
- Canfod canser yn gyflym
- Cyflawni triniaeth a gofal cyflym, effeithiol
- Ateb anghenion pobl
- Rhoi gofal ar derfyn oes
- Gwella gwybodaeth
- Targedu ymchwil

Mae'r cynllun yn herio pob Bwrdd Iechyd Lleol (BILLau) i gynllunio a chyflawni gofal canser o ansawdd uchel i'w poblogaethau.

Croesawodd Cynghair Canser Cymru'r ffaith i'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser gael ei gyflwyno ac i'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Canser (CIG) gael ei greu ym mis Mehefin 2012. Fodd bynnag, credwn fod angen gwneud mwy o waith yn enwedig o ran casglu data a dadansoddi'r wybodaeth i lywio'r gweithredu; cynllunio cenedlaethol mwy effeithiol; mwy o fonitro yn erbyn mesuriadau perfformiad a bod angen i ragor o strwythurau atebolrwydd gael eu rhoi yn eu lle.

2. Defnyddio data'n fwy effeithiol

Mae data i ddangos a yw Cymru ar y llwybr i gyflawni'r canlyniadau a'r mesurau perfformiad a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cancer erbyn 2016, ar gael drwy Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Cancer Cymru (WCISU) a thrwy drefniadau monitro perfformiad eraill gan gynnwys yr Arolwg o Brofiad Cleifion Cancer Cymru, safonau cancer, ac adolygu gan gymheiriaid.



Fodd bynnag, rydym yn dal i bryderu nad oes digon o ffocws yn Llywodraeth Cymru neu yn y GIG i sicrhau bod y data sydd ar gael yn cael eu defnyddio i yrru'r gweithredu sydd ei angen i wneud y gwelliannau angenrheidiol i ofal cancer yn gyson ledled Cymru.

Credwn ei bod yn annhebygol y bydd Cymru'n gwireddu'r dyheadau a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cancer heb ddadansoddiad llawer mwy a manylach o'r data a'r wybodaeth arall sydd ar gael, er mwyn nodi lle mae'r bylchau mewn gwasanaethau a pherfformiad, a lle mae'n rhaid gwneud gwelliannau.

3. Mwy o Gynllunio ac Arweiniad Cenedlaethol

Rhoesom groeso i'r gofyniad a oedd yn y Cynllun fod rhaid i BILLau gynhyrchu eu cynlluniau cyflawni ar gyfer cancer blynyddol eu hunain a fyddai'n helpu i deilwra'r gofal i'w gwasanaethau a'u poblogaethau lleol. Fodd bynnag, mae cryn amrywiaeth yng nghynnwys, dyfnder ac ansawdd cynlluniau BILL gwahanol, ac mae hyn yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth yn y mynediad i driniaethau a gofal, o atal a diagnosis cynnar, drwy driniaeth a thu hwnt.

Heb ysgogiad cenedlaethol i gyflawni'r nodau yn y cynllun, mae'r ddibyniaeth a'r ffocws cyfredol ar gynllunio a gweithredu ar lefel bwrdd iechyd lleol, yn cynyddu yn hytrach nag yn lleihau'r anghysondeb o ran mynediad i ofal ledled Cymru.


Credwn fod angen cynllunio rhai gwasanaethau'n genedlaethol neu ar sail Cymru neu rwydwaith oherwydd cymhlethdod triniaeth ganser ac oherwydd yn aml, bod angen i gleifion gael triniaeth gan nifer o dimau amlddisgyblaethol mewn amrywiaeth o ysbytai sy'n rhychwantu nifer o ffiniau byrddau iechyd.

Mae diffyg strwythur cynllunio a chynnal cenedlaethol wedi golygu nad oes gan Gymru'r gallu i reoli mentrau ar sail Cymru gyfan, gan gynnwys rheoli prosiectau elfennau allweddol y cynllun megis symud gwaith yn ei flaen ar ddiagnosis cynnar sydd wedi cael ei nodi'n flaenoriaeth.

Er enghraifft, mae diffyg ymagweddu cenedlaethol wedi llesteirio gweithredu menter y gweithiwr allweddol. Yn araf y cyflwynwyd hyn ac mae gweithredu rôl y gweithiwr allweddol wedi cael ei ddehongli a'i gymhwyso'n anghyson ar draws byrddau iechyd.

Rydym yn argymhell y dylid rhoi strwythur cynllunio a phrosesau cynnal cenedlaethol yn eu lle sy'n ymgorffori'r cyfrifoldeb dros gasglu data a dadansoddi'r wybodaeth yn well; dros goladu'r cynnydd yn erbyn y targedau a gyflawnir; dros gynghori BILLau lle gwelir bod bylchau perfformiad mewn

gwasanaethau; a thros gyflawni'r agweddau ar y cynllun sydd ag angen ffocws ac ymrwymiad cenedlaethol systematig. Dylai'r adnodd/tîm hwn fod yn fforwm hefyd ar gyfer rhannu a datblygu'r arferion da a'r rhai gorau.



Er ein bod yn croesawu'r ffaith i'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Canser (CIG) gael ei greu, lle mae Cynghair Canser Cymru wedi cael ei gydnabod yn aelod allweddol, rydym o'r farn nad oes gan y grŵp ddigon o adnoddau ar hyn o bryd i gynorthwyo ei waith y tu hwnt i'r cyfarfodydd yn enwedig o ran symud mentrau cenedlaethol yn eu blaenau.

Byddai strwythur cynllunio a thîm gweithredu cenedlaethol i roi cymorth i weithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser yn helpu'r CIG i weithio'n fwy effeithiol drwy bontio'r bwlch sydd rhwng y polisi cenedlaethol a'r gweithredu lleol. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried y strwythurau a'r prosesau y byddai eu hangen i symud ei huchelgais yn ei flaen a'i weithredu.

Hoffem weld mwy o dystiolaeth o arweiniad cenedlaethol, a gosod targedau sy'n mynd y tu hwnt i amserlen blwyddyn gyda mwy o gynllunio prosiectau cadarn yn sail i bob blaenoriaeth. Hefyd, hoffem weld fod gan bob amcan eglur derfynau amser/ targedau y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn.

4. Atebolrwydd Mwy Eglur

Ar hyn o bryd, mae'n aneglur sut mae'r strwythurau atebolrwydd a'r prosesau cyflawni yn erbyn cynlluniau'r byrddau iechyd yn gweithio neu sut cesglir dystiolaeth y gellir ei defnyddio'n offeryn i feincnodi perfformiad arno.

Rydym yn croesawu'r gofyniad i BILlau gyhoeddi eu cynlluniau cyflawni ar gyfer canser a'u hadroddiadau blynyddol unigol ar eu gwefannau, ac rydym yn croesawu'r ymrwymiad i fod yn agored ac yn dryloyw, a all fod yn un o'r ysgogiadau allweddol ar gyfer newid. Fodd bynnag, mewn gwirionedd mae angen trefniadau atebolrwydd mwy ffurfiol hefyd gyda disgwyliadau eglur o ran cyflawni gan fyrddau iechyd. Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau, ble a phan welir bod angen gwella perfformiad, fod camau gweithredu'n digwydd a bod cymorth ychwanegol yn cael ei roi.

Cred WCA na wireddir yr uchelgeisiau a nodir yn y cynllun heb ragor o gynllunio, prosesau a strwythurau cenedlaethol cadarn i roi cymorth i'r gweithredu er mwyn casglu data llawn gwybodaeth; gwneud dadansoddiad manwl cywir i lywio a nodi lle mae angen camau gweithredu; goruchwyllo cynllunio cenedlaethol a mentrau dros Gymru gyfan lle y bo angen; strwythur monitro ac atebolrwydd mwy cadarn.

Mae angen cydnabod bod angen newid mwy sylfaenol yn y dull o synied am faint a chyflymdra'r gweithredu sydd ei angen faint o newid systemau a newid diwylliannol sydd ei hangen er mwyn gwireddu'r uchelgais a nodwyd yn y cynllun erbyn 2016.

5. Casgliad

I grynhoi, mae Cynghair Canser Cymru yn croesawu'r uchelgais a'r cyfeiriad a nodwyd yn *Law yn*

[Inquiry into the progress made to date on implementing the Welsh Government's Cancer Delivery Plan](#)

Evidence from Wales Cancer Alliance – CDP 18

Llaw yn erbyn Canser - Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2012. Mae dwy flynedd bellach wedi mynd heibio ers ei gyhoeddi ac nid ydym eto wedi cael ein darbwylllo bod y dyheadau a nodwyd yn y Cynllun yn cael eu cyflawni ar y cyflymder a'r raddfa yr oeddem wedi gobeithio amdanynt. Mae cryn waith i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod y nodau a bennwyd ar gyfer 2016 yn cael eu cyflawni ar draws pob math o ganser ac ar gyfer pob claf canser yng Nghymru. Mae gormod o amrywiaeth mewn canlyniadau a phrofiad cleifion o hyd rhwng ysbytai a byrddau iechyd na ellir eu cyfiawnhau gan amgylchiadau lleol yn unig.



Galwn ar Lywodraeth Cymru i gryfhau ei hymagweddu tuag at gynllunio cenedlaethol a monitro'r cynnydd a wneir wrth weithredu. Mae angen inni edrych yn fwy na blwyddyn ymlaen gyda ffocws ar lawer mwy o gydweithredu ar draws byrddau iechyd a thimau cancer lle y bo angen i sicrhau bod cleifion yn cael gofal amserol sydd wedi'i gydlynu.

Mae angen newid o ran syniadau ac ymagweddu i sicrhau y gellir gwireddu'r cyfeiriad a'r uchelgais a bennwyd yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cancer, yr ydym yn ei gefnogi'n llawn, ar gyfer pob claf cancer, ble bynnag y maen nhw'n byw yng Nghymru.

Cynghair Cancer Cymru
4 Ebrill 2014

Cyrff aelodaeth

Gofal Cancer y Fron

Ymchwil Cancer y DU

Ymchwil Cancer Cymru

Clic Sargeant

Hosbisau Annibynnol Cymru

Cymorth Cancer Macmillan


Maggies

Gofal Cancer Marie Curie

Cancer y Brostad y DU

Ymddiriedolaeth Cancer yr Ardegau

Tenovus



CYNGHRAIR CANCER CYMRU
WALES CANCER ALLIANCE

Cynghrair Cancer Cymru Galwadau am Flaenoriaethu Polisiâu

Mae Cynghrair Cancer Cymru (WCA) yn cynnwys deg o gyrff gwirfoddol sydd wedi ymrwmo i hyrwyddo rhwystro cancer, triniaeth ganser, ymchwil a gofal cancer i bobl yng Nghymru. Bob blwyddyn rydym yn buddsoddi dros £20m yng Nghymru ac yn cyfrannu i ddatblygu polisi cancer.

Mae Cynghrair Cancer Cymru yn croesawu Cynllun Cyflawni ar gyfer Cancer Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2012. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Cynllun Cyflawni o ran gyrru gwelliannau mewn gwasanaethau cancer ac yn galw ar y llywodraeth i sicrhau momentwm parhaus wrth weithredu ymrwymadau allweddol yn y cynllun.

Credwn fod gan y sector gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni gwelliannau i rai wedi'u heffeithio gan ganser, ac edrychwn ymlaen at gydweithio â Llywodraeth Cymru, y GIG ac eraill er mwyn gwneud hyn.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r meysydd allweddol lle credwn fod angen ymrwymiad pellach ac mae'n awgrymu camau gweithredu.

Atal Cancer

Amcangyfrifir y gellid atal hyd at hanner yr holl ganserau drwy ffyrdd o fyw iach. Mae peidio ag ysmegu, rheoli pwysau'r corff, byw'n egniol, dewis bwydydd iach, lefel isel o alcohol a chadw'n ddiogel yn yr haul i gyd yn gallu helpu i leihau'r perygl o ganser.

Rydym eisiau gweld;

- Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r ffyrdd o leihau'r perygl o ganser a mwy o gydweithio ar draws sectorau
- Adnabod a chynorthwyo cyfleoedd ar gyfer 'eiliadau addysgu' am negeseuon atal.

Ffocws ar Ganfod Cancer yn Gynnar

Rydym yn croesawu'n frwd y meysydd sy'n canolbwyntio ar ganfod cancer yn gynnar yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Cancer ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'r llywodraeth i'w cyflawni.

Rydym eisiau gweld:

- Menter wedi'i chydlynu'n ganolog i wella diagnosis cancer cynnar yng Nghymru
- Ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus dros Gymru gyfan sy'n rhoi sylw i arwyddion a symptomau cyffredin cancer a phwysigrwydd mynd yn brydlon at feddyg teulu
- Tystiolaeth gadarn yn cael ei rhoi i Fyrddau Iechyd i lywio'r gweithredu lleol
- Ymgyrch gwybodaeth genedlaethol ar fanteision sgrinio am ganser sy'n cynnwys y sector gwirfoddol
- Gwella'r cymorth i feddygol teulu i'w helpu i gyfeirio cleifion yn amserol am ddiagnosis cancer a gwella'r llwybrau'r cyfeirio rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd er mwyn hybu cyfeirio cleifion ymlaen yn brydlon.



CYNGHRAIR CANCER CYMRU
WALES CANCER ALLIANCE

Rhoi Triniaeth a Gofal Cyflym, Effeithiol

Gwyddom fod anghydraddoldebau o hyd o ran mynediad i wasanaethau a thriniaethau ac y gall y rhain arwain at anghydraddoldebau yn y canlyniadau.

Dylai prosesau newydd wella'r cydraddoldeb mynediad i gyffuriau cancer ond ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd i bennu faint o gynnydd a wnaed ar y mater hwn. Mae'r mynediad i driniaeth yn dal i fod yn anghyfartal yn fwy cyffredinol; er enghraifft, technoleg radiotherapi neu dechnegau llawfeddygol newydd; ac mewn gwasanaethau cancer a gwasanaethau cymorth.

Rydym eisiau gweld:

- Data cyfoes a mwy o dryloywder o ran mynediad i driniaeth cancer
- Prosesau teg, eglur a chyson ledled Cymru er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad i gyffuriau sy'n effeithiol yn glinigol
- Bod pobl yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael iddynt; a
- Bod ganddynt fynediad cyfartal, beth bynnag yw math y cancer, daearyddiaeth, oedran, rhyw, statws, ethnigrwydd, ffydd neu anabledd i dimau rhyngddisgyblaethol arbenigol cancer
- Cydymffurfio â thargedau amser aros ar gyfer achosion brys a heb fod yn rhai brys
- Gwasanaethau parhau wedi'u cynhyrchu i cleifion cancer metastatig a chanlyniadau wedi'u mesur

Ateb Anghenion Pobl

Dylai gwasanaethau cancer ganolbwyntio ar anghenion unigol pobl a'u teuluoedd. Nid yw anghenion holistaidd pobl - corfforol, emosiynol, ysbrydol, ariannol ac ymarferol yn cael eu hadnabod neu'n cael sylw bob amser.

Dylai pob person dderbyn cynllun gofal personol sydd wedi'i seilio ar asesiad holistaidd o'i anghenion a dylai hyn fynd ymlaen i'r cyfnod ar ôl y driniaeth.

Yn ogystal mae pobl yn dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi cael gweithiwr allweddol a enwyd i weithredu fel cydlynnydd, rhywun i ateb cwestiynau ac i gyfeirio at y gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo anghenion unigol pobl.

Byddai'r newidiadau hyn yn helpu i roi cymorth i nifer o bobl i hunanreoli eu cyflwr ar ôl y driniaeth a gallai felly ryddhau adnoddau a chapasiti ar gyfer achosion mwy cymhleth.

Rydym eisiau gweld:

- Asesu a chynllunio gofal yn cael ei weithredu i bawb sy'n byw gyda chanser
- Gwella'r wybodaeth a'r cymorth er mwyn annog hunanreoli
- Dehongli a gweithredu rôl y gweithiwr allweddol yn gyson ledled Cymru
- Mwy o ddealltwriaeth gan gleifion o rôl y gweithiwr allweddol
- Crynodeb diwedd triniaeth wedi'i anfon at feddygon teulu'r cleifion
- System ôl driniaeth sy'n rhoi'r person yn fwy yn y canol i gynorthwyo'r rhai sydd wedi gorosi cancer



Cydlynu Gofal

Mae pobl yn dweud wrthym eu bod eisiau i'w gofal fod wedi'i gydlynu'n effeithiol, ar draws gwahanol rannau'r sector statudol a'r sector gwirfoddol yn ystod ac ar ôl triniaeth. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen cydlynu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well a rhwng gofal aciwt a sylfaenol. Dylid rhoi sylw arbennig i adegau pontio megis adeg diagnosis, ar ddiwedd y driniaeth a phan fydd cleifion yn nesáu at ddiwedd eu bywyd.

Mae Nyrsys Arbenigol Clinigol (CNS) a gweithwyr iechyd yn chwarae rhan bwysig wrth gydlynu'r gofal. Fodd bynnag, gwyddom nad oes mynediad cyfartal i CNSs a bod tystiolaeth fod amser nyrsys arbenigol yn cael ei golli. Gwyddom hefyd mai'n ddarniog ac yn anghyson y mae rôl y gweithiwr allweddol yn cael ei gweithredu ac nad yw nifer o gleifion yn ymwybodol o'r cymorth y gallant ddisgwyl ei dderbyn gan eu gweithiwr allweddol.

Rydym eisiau gweld:

- Ymrwymiad i wella cynllunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwella cydgynllunio gofal cleifion unigol ar draws gwasanaethau gofal aciwt a sylfaenol gan gynnwys y sector gwirfoddol
- Cymorth ychwanegol i bobl ar adegau pontio allweddol
- Data am ddarpariaeth nyrsys arbenigol clinigol (CNSs) ledled Cymru
- Ymchwil i rôl y CNSs ac i ba raddau mae cydlynu anghenion gofal yn digwydd
- Monitro mesurau canlyniadau gweithredu rôl y gweithiwr allweddol.

© Cyngwraig Cancer Cymru 2019. Dim hysbysu o'r blaen. Dim hysbysu o'r blaen. Dim hysbysu o'r blaen. Dim hysbysu o'r blaen.

Rhoi Gofal ar Derfyn Oes

Gwyddom fod dros 60% o'r bobl dweud yr hoffent farw gartref ond y sefyllfa sydd ohoni yw bod dros 60% o bobl yng Nghymru yn marw yn yr ysbyty. Gwyddom hefyd fod pobl yn poeni y byddant mewn poen ar derfyn eu bywydau. Mae cymorth clinigol arbenigol yn allweddol wrth sicrhau bod terfyn oes pobl heb boen a symptomau. Hefyd dylai gofalwyr a theuluoedd dderbyn y cymorth a'r gofal sydd eu hangen arnynt.

Rydym eisiau gweld:

- Mwy o bwyslais ar ddarparu gwasanaethau mewn lleoliadau cymunedol gydag adnoddau priodol i gyflawni hyn
- Mwy o integreiddio cymorth ar draws pob corff o fewn a'r tu allan i'r sector cyhoeddus
- Pobl yn cael cymorth i gael sgysiau am eu dymuniadau ar derfyn eu hoes.
- Dylid dechrau sgwrs ledled Cymru i annog pobl i drafod eu dymuniadau a'u barn am ofal ar derfyn eu hoes.



Gwella Gwybodaeth

Mae pentwr o ddata archwiliadau'n cael ei gasglu, ond rydym eisiau sicrhau bod gan gleifion y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth a'u gofal cancer, a bod Byrddau Iechyd yn gallu asesu a gwella eu gwasanaethau i gleifion cancer. Hefyd mae angen data ar Lywodraeth Cymru i'w galluogi hi a'r cyhoedd i ddal Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif.

Rydym eisiau gweld data ystyrion sy'n berthnasol i brofiad cleifion, ansawdd y gwasanaeth a chanlyniadau iechyd yn cael eu casglu, eu coladu ac yn sbardun i weithredu.

Rydym eisiau gweld:

- Byrddau Iechyd Lleol yn gweithredu ar ganfyddiadau Arolwg o Brofiad Cleifion Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru er mwyn gwella'r gofal a'r cymorth i bobl a'u teuluoedd.
- Nodi'r mesuriadau canlyniad penodol ar gyfer profiad cleifion a'u cynnwys yn y fframwaith ansawdd newydd.
- Data a gwybodaeth wedi'u cyflwyno mewn fformat tryloyw a hawdd ei deall fel bod pawb, gan gynnwys rhai wedi'u heffeithio gan ganser, yn deall y wybodaeth.
- Creu diwylliant cefnogol yn y GIG ar gyfer dysgu o brofiad cleifion ac asesu a gwella ansawdd y gwasanaethau.
- Casglu data am ddiagnosis metatastig a rheolaidd fel y gellir cynllunio a chyflawni triniaeth a chymorth i'r grŵp hwn yn effeithiol
- Rhoi cymorth i fentrau fel bod gwybodaeth hwevrch ar gael i gleifion vnehwylch dewisiadau triniaeth a gofal a'u

Targed Ymchwil

Mae Cymru wedi bod ar flaen y gad ym maes ymchwil cancer dros y blynyddoedd gyda nifer o aelodau'r Cynghair yn cyfrannu i ddatblygiadau allweddol o ran canfod a thrin y clefyd. Mae datblygu Banc Canser Cymru a Pharc Geneteg Cymru yn gampau allweddol y dylai Cymru fod yn falch ohonynt.

Nawr hoffai'r Cynghair weld mwy o ffocws ar ddatblygu strategaeth ymchwil cancer i Gymru sy'n rhoi cyfeiriad eglur i'r rhai ym maes ymchwil cancer o ran sut gallant gyfrannu i weithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser yn llwyddiannus.

Rydym eisiau gweld:

- Pobl yn cael gwybodaeth ddigonol ac yn cael mynediad i'r treialon clinigol priodol gan fod yn hyn allweddol ar gyfer ymchwil glinigol a gwella canlyniadau
- Eglurder a ffocws o ran y seilwaith, y rhwydweithiau a'r ffrydiau ariannu sy'n rhoi cymorth i ymchwil cancer yng Nghymru
- Mwy o gymorth i ymchwil i ofal lliniarol ac ar ddiwedd bywyd yn ogystal â goroesi a materion sy'n *ysvlltiadio â hwn arda cancer*

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:-

Susan Morris, Cadeirydd, Cynghair Canser Cymru SMorris@macmillan.org.uk Ffôn: 01656 867974

Cynghair Canser Cymru: Gofal Canser y Fron, Ymchwil Canser Cymru, Ymchwil Canser y DU, Clic Sergeant, Hosbisau Cymru, Cymorth Canser Macmillan, Maggie's, Marie Curie, Myeloma UK a Tenovus.
<http://www.walescanceralliance.org.uk>